



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Ymchwiliad i ymyrraeth â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg

Bupa Dental Care (D)

Cyfeirnod: *Rhydd1*

Mae'r ddogfen yma yn fersiwn gryno o'r adroddiad llawn a roddwyd i Weinidogion Cymru dan adran 118(2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (ac a roddwyd copi ohono i'r ceisydd a'r sefydliad dan ymchwiliad). Cyhoeddwyd y ddogfen gyhoeddus hon yn unol ag adran 118(4)(b) y Mesur.

Dyddiad: 09/11/2022

Cynnwys

1.	Cefndir	3
2.	Ymyrraeth 1	4
3.	Barn y Comisiynydd ar ymyrraeth 1	6
4.	Ymyrraeth 2	7
5.	Barn y Comisiynydd ar ymyrraeth 2	8
6.	Gweithredu pellach	10

1. Cefndir

- 1.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu'r egwyddor bod gan unigolion y rhyddid i gyfathrebu yn Gymraeg gyda'i gilydd yng Nghymru.
- 1.2 Gall unigolion sy'n teimlo bod sefydliad neu berson wedi ymyrryd â'u rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg ofyn i'r Comisiynydd ymchwilio i'w hachos.
- 1.3 Ar 15 Ebrill 2021, derbyniais gais gan unigolyn (P) yn gofyn i mi ymchwilio i a oedd Bupa Dental Care (D) wedi ymyrryd â'i ryddid i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolyn arall.
- 1.4 Roedd cais P yn ymwneud ag ymyraethau honedig sy'n gysylltiedig â deintyddfa yng Nghymru. D sydd yn gyfrifol am y ddeintyddfa.
- 1.5 Roedd cais P yn honni bod datganiadau a wnaeth D yn yr ohebiaeth ganlynol yn gyfateb ag ymyrraeth â'i ryddid i gyfathrebu yn Gymraeg gyda staff yn y ddeintyddfa:
 - ebost gan reolwr y ddeintyddfa
 - llythyr gan Gyfarwyddwr Gweithrediadau Rhanbarthol Bupa Dental Care.
- 1.6 Ar sail cais P a sylwadau D, penderfynais ymchwilio i'r ymyraethau honedig.

2. Ymyrraeth 1

2.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cadarnhau y byddai person (D) yn ymyrryd â rhyddid unigolyn (P) i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg¹ ag unigolyn arall (R) os yw D:

“[...] yn mynegi na ddylai P neu R ymgymryd—

(a) â chyfathrebiad penodol yn Gymraeg sy'n gyfathrebiad Cymraeg neu
(b) **â chategori o gyfathrebiadau Cymraeg sydd (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn un neu ragor o gyfathrebiadau Cymraeg.**”

2.2 Mae'r Mesur yn nodi mai un ffordd o wneud hynny fyddai i ddweud wrth P am beidio ag ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg penodol neu gategori o gyfathrebiadau Cymraeg.

2.3 Ar 22 Mawrth 2021, anfonodd rheolwr y ddeintyddfa (X) e-bost at P.

2.4 Anfonodd X yr ohebiaeth at P yn dilyn cyfres o gyfathrebiadau a gaed rhwng P ac aelod arall o staff yn y ddeintyddfa (A) yn Gymraeg yn unig.

2.5 Roedd yr e-bost yn cynnwys y datganiad isod:

“[...] all communication should be either in English or bilingual in order that the whole team can understand instruction”.

2.6 Drwy'r datganiad yma, fe fynegodd D i P y dylai pob cyfathrebiad a wneir yn y dyfodol fod naill ai yn Saesneg yn unig neu yn ddwyieithog (sef yn Gymraeg ac yn Saesneg).

2.7 Effaith ymarferol y datganiad hwn oedd bod D wedi mynegi i P na ddylai ymgymryd â chyfathrebiad yn Gymraeg yn unig ac na ddylai ymgymryd â chyfathrebiad yn Gymraeg heb iddo ail-adrodd y cyfathrebiad hwnnw yn Saesneg hefyd.

2.8 Trwy wneud hynny, gwnaeth D fynegi na ddylai P ymgymryd â chategori o gyfathrebiadau Cymraeg.

2.9 Fe amlygodd yr ymchwiliad bod yna anghytuno rhwng D a P ynghylch pa cyfathrebiadau yn union yr oedd X yn cyfeirio atynt wrth roi cyfarwyddyd i P i ymgymryd â phob cyfathrebiad (“all communication”) yn Saesneg neu'n ddwyieithog o hynny ymlaen.

2.10 Barn D yw bod y datganiad yn berthnasol i'r cyfathrebiadau a geir rhwng P ac X yn unig. Barn P yw bod y datganiad yn cyfeirio at gyfathrebiadau a geir gyda unrhyw staff yn y gweithle, gan gynnwys y rhai a geir rhwng P ac A ac unrhyw staff Cymraeg eraill yn y ddeintyddfa.

2.11 Fy marn i yw nad oedd y datganiad a oedd yn cyfarwyddo P i beidio â chyfathrebu yn Gymraeg yn unig yn cyfeirio at dim ond y cyfathrebiadau a wneir rhwng P ac X. Anfonodd X yr e-bost yn cynnwys y datganiad dan sylw yn dilyn, ac mewn perthynas uniongyrchol â materion yn ymwneud â'r cyfathrebiadau Cymraeg yn unig a wnaed rhwng P ac A. Gan

¹ Ystyr “cyfathrebiad Cymraeg” yw cyfathrebiad yn Gymraeg rhwng dau unigolyn sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd wrth ymgymryd â'r cyfathrebiad.

ystyried cyd-destun ac amseru anfon y datganiad at P, roedd hi'n rhesymol i P gasglu bod y datganiad a oedd yn cwtfogi ar ei ddefnydd o'r Gymraeg yn ymwneud â'r cyfathrebiadau hynny y byddai P yn eu cael yn y dyfodol gydag A (ac unrhyw aelod arall o staff oedd yn siarad Cymraeg).

- 2.12 Mae D yn egluro nad *bwriad* y datganiad oedd i gyfarwyddo P i beidio â defnyddio'r Gymraeg yn unig gydag A neu staff Cymraeg eraill (ond yn hytrach, yn gyfarwyddyd i P beidio â gwneud hynny gyda X). Ond, o ddarllen cynnwys penodol y datganiad a chan gydnabod cyd-destun ehangach yr e-bost, fe ddehonglodd P i'r datganiad gael yr effaith yma.
- 2.13 O ganlyniad, fe gafodd y datganiad yr effaith ymarferol o gyfarwyddo P i roi'r gorau i gyfathrebu yn Gymraeg yn unig (ac i gyfathrebu yn Saesneg yn unig neu'n ddwyieithog) gyda staff Cymraeg y ddeintyddfa (hyd yn oed pe byddai'r staff wedi dymuno cyfathrebu â P yn Gymraeg yn unig).
- 2.14 Roedd mwyafrif y staff yn y ddeintyddfa yn siaradwyr Cymraeg ac yn ymddangos eu bod wedi dewis, ac yn dymuno, cyfathrebu â P yn Gymraeg. Roedd y cyfathrebiadau a soniwyd amdanynt yn y datganiad felly yn cynnwys cyfathrebiadau rhwng dau unigolyn (sef P ac un o'r aelodau staff Cymraeg yn y ddeintyddfa) oedd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. Roedd datganiad X felly yn ymwneud â chyfathrebiadau oedd yn dod o dan ystyr y term "cyfathrebiad Cymraeg" yn adran 112 y Mesur.
- 2.15 Roedd y cyfarwyddyd yma gan X felly yn gyson â'r enghraifft gyntaf o ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg sy'n cael ei nodi yn is-adran 2(b) o adran 113 y Mesur, sef bod D wedi ymyrryd â rhyddid unigolyn (P) i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolyn arall (R) drwy fynegi na ddylai P ymgymryd â chategori o gyfathrebiadau Cymraeg. Fe wnaeth D hynny yn benodol drwy fynegi na ddylai'r Gymraeg (yn unig) gael ei ddefnyddio gyda staff yn y ddeintyddfa.

3. Barn y Comisiynydd ar ymyrraeth 1

- 3.1 Anfonwyd yr e-bost at P mewn ymgais i ddelio â gwallau gweinyddol yr honnwyd eu bod wedi digwydd yn y ddeintyddfa. Wedi eu cynnwys yn yr e-bost oedd awgrymiadau gan X o ba gamau yr oedd angen eu cymryd er mwyn delio â'r gwallau hynny. Un o'r camau adferol hynny oedd y dylai pob cyfathrebiad fod yn Saesneg neu'n ddwyieithog o hynny ymlaen.
- 3.2 Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth a fyddai wedi awgrymu bod unrhyw wallau gweinyddol wedi'u gwneud o ganlyniad i ddefnydd P neu unrhyw berson arall o'r Gymraeg. O ganlyniad, ystyriaf nad oedd modd cyfiawnhau ymyrryd yn nefnydd P o'r Gymraeg gydag A neu eraill er mwyn ceisio rheoli a delio â'r gwallau gweinyddol a wnaed yn y ddeintyddfa.
- 3.3 Yn hynny o beth, hyd yn oed pe bawn wedi dod o hyd i dystiolaeth bod y gwallau gweinyddol wedi digwydd oherwydd defnydd P o'r Gymraeg, ni fyddai hynny o reidrwydd wedi golygu bod y sail yr ymyrrodd D yn nefnydd P o'r Gymraeg yn gadarn, ac felly, y gellid bod wedi cyfiawnhau'r ymyriad.
- 3.4 Cyn dewis ymyrryd â rhyddid P i ddefnyddio'r Gymraeg, ni ystyriwyd dulliau amgen posibl o geisio delio â'r gwallau gweinyddol honedig mewn ffordd nad oeddynt yn ymyrryd yn nefnydd P o'r Gymraeg. Yn lle archwilio ffyrdd o reoli a delio â'r gwallau gweinyddol yr honnwyd a wnaed yn y ddeintyddfa mewn ffordd oedd hefyd yn galluogi ac yn meithrin amgylchedd gwaith lle gallai staff ddefnyddio'r Gymraeg yn rhydd, mynnodd D fod P yn cyfyngu ar ei ddefnydd arferol o'r Gymraeg er mwyn ceisio datrys y mater.
- 3.5 Mae'r ddeintyddfa wedi'i lleoli yng Nghymru, mewn un o gadarnleoedd y Gymraeg² ac yn cael ei wasanaethu gan staff y mae gan bron pob un ohonynt sgiliau iaith Gymraeg. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 hefyd yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru ac yn rhoi rhyddid i unigolion yng Nghymru fyw mewn cymdeithas lle gallant ddefnyddio'r Gymraeg yn ddi-rwystr yn eu bywyd personol ac yn y gweithle.
- 3.6 Gyda hynny mewn golwg, ystyriaf y dylai D wneud mwy i gydnabod, parchu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a wneir rhwng staff yn y deintyddfeydd y mae'n ei gynnal.
- 3.7 Mae yna dystiolaeth wedi'i darparu yn ystod yr ymchwiliad yma sydd yn cyfleu bod y defnydd o'r Gymraeg mewn rhai cyd-destunau yn rhan arferol o fywyd gwaith y ddeintyddfa a bod hynny yn cael ei derbyn a'i hannog gan D – er enghraifft, rwyf yn nodi o dystiolaeth D yr oedd staff y ddeintyddfa yn dueddol o gyfarch ei gilydd yn Gymraeg a bod staff yn defnyddio'r Gymraeg gyda chwsmeriaid os mai dyna yw eu dymuniad.
- 3.8 Fodd bynnag, yn y sefyllfa penodol sydd dan sylw i'r ymchwiliad yma, nid ymddengys y gwnaeth yr hyn a ddigwyddodd gyfrannu at sicrhau bod y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei pharchu na'i hwyluso yn y ddeintyddfa, ac yn hytrach, fe benderfynwyd gweithredu i geisio delio â'r gwallau gweinyddol honedig mewn modd oedd yn creu'r awgrym mai dim ond wrth fynnu'r defnydd o'r Saesneg y gellid delio â'r problemau honedig, a dim ond wrth ddefnyddio'r Saesneg y byddai modd gweithredu a chyfathrebu yn effeithiol yn y gweithle.

² Nododd Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth fod mwyafrif o boblogaeth yr ardal dan sylw yn gallu siarad Cymraeg (ar 30 Medi 2021)

4. Ymyrraeth 2

- 4.1 Ar 8 Ebrill 2021, anfonodd Cyfarwyddwr Gweithrediadau Rhanbarthol Bupa Dental (Y) llythyr at P.
- 4.2 Roedd y llythyr yn atgoffa P o'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad oedd wedi eu cynnwys yn nhelerau ei Gytundeb Cyswllt ('Associate Agreement') gyda D.
- 4.3 Cyfeiriodd y llythyr at gymalau penodol yn y cytundeb yr oedd P wedi ymrwymo iddyn nhw. Nododd y llythyr bod D yn ystyried fod yna achosion wedi dod i'r amlwg o P yn torri'r darpariaethau hyn. Rhoddwyd y canlynol fel un enghraifft o sawl gweithred gan P a oedd yn gyfateb â thorri cymalau yn ei gytundeb:

"[...] choosing to communicate with the Practice Team in the Welsh language rather than English when you know that the Practice Manager does not speak Welsh."

- 4.4 Gan gyfeirio at y toriadau honedig a restrwyd yn y llythyr, fe wnaed datganiadau i P yn y llythyr oedd yn awgrymu y byddai ei gytundeb cyswllt yn dod i ben yn syth, ac na fyddai D yn gwneud taliadau pellach i P dan y cytundeb, pe na bai P yn unioni toriadau honedig yn ei gytundeb. Un o'r toriadau hynny oedd bod P wedi dewis cyfathrebu gyda Tîm y Ddeintyddfa (ac nid o reidrwydd X yn uniongyrchol) yn Gymraeg yn lle'r Saesneg (gan wybod nad oedd X yn siarad Cymraeg).
- 4.5 Drwy wneud y datganiad hwn, fe fynegodd D yn glir i P y byddai'n bosibl iddo ddiodef anfanteision (yn gysylltiedig â therfynu ei gytundeb) pe byddai yn parhau i gyfathrebu gyda Tîm y Ddeintyddfa yn Gymraeg (yn lle'r Saesneg).
- 4.6 Ymddengys yr oedd aelodau o dîm y ddeintyddfa yn dymuno defnyddio'r Gymraeg gyda P. Roedd datganiad D felly yn rhoi gwybod i P y byddai goblygiadau negyddol posibl pe bai'n parhau i ymgymryd â chyfathrebiadau rhwng unigolion oedd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.
- 4.7 Gwnaed felly yn hollol amlwg i P y byddai parhau i ymgymryd â "chyfathrebiad Cymraeg" gydag R (sef staff Tîm y Ddeintyddfa ac nid o reidrwydd X yn uniongyrchol) yn gallu arwain at P yn profi effeithiau andwyol yn ymwneud â'i swydd a'i fywoliaeth.
- 4.8 Roedd y datganiadau a wnaed felly yn gyson â'r enghraifft gyntaf o ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg sy'n cael ei nodi yn is-adran 2(b) o adran 113 y Mesur, sef bod D wedi ymyrryd â rhyddid unigolyn (P) i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolyn arall (R) drwy fynegi na ddylai P ymgymryd â chategori o gyfathrebiadau Cymraeg. Fe wnaeth D hynny yn benodol drwy nodi y byddai P yn diodef anfantais os byddai yn ymgymryd â chategori o gyfathrebiadau Cymraeg.

5. Barn y Comisiynydd ar ymyrraeth 2

- 5.1 Fe wnaeth D ddibynnu ar y canlynol i geisio cyfiawnhau ei ymyrraeth â rhyddid P i ddefnyddio'r Gymraeg, sef yn yr achos yma, y cais i P roi'r gorau i gyfathrebu â Thîm y Deintyddfa yn Gymraeg (ac iddo gyfathrebu yn Saesneg, gan wybod na allai X siarad Cymraeg):
- bod y weithred/anwaith yma yn torri [cymal A] o gytundeb cyswllt P; a
 - bod y weithred/anwaith yma yn torri [cymal B] o'i gytundeb cyswllt.
- 5.2 Roedd cymal A yn gysylltiedig â sicrhau bod P, ymysg pethau eraill, yn gweithio yn effeithiol gyda'i gydweithwyr ac yn cyfrannu at waith tîm da. Roedd cymal B yn ymwneud â sicrhau bod P yn trin staff gyda pharch ac urddas ac yn cyfrannu at awyrgylch gwaith oedd yn rhydd o fwlio.
- 5.3 Ni chanfuwyd tystiolaeth a gadarnhaodd bod ymddygiad P o gyfathrebu â Thim y Ddeintyddfa yn Gymraeg (yn hytrach na'r Saesneg, pan gwyddys nad oedd X yn siarad Cymraeg) yn gyfateb ag unrhyw doriad gydag un neu ragor o'r amodau yn ei gytundeb cyswllt.
- 5.4 Gan nad wyf yn argyhoeddedig bod sail glir i awgrymu bod defnydd P o'r Gymraeg yn gyfystyr â'r achosion o dorri'r toriadau a amlinellir yn llythyr D, neu y byddai'n gyfystyr â hynny, nid wyf o'r farn bod cyfiawnhad dros yr ymyrraeth yn nefnydd P o'r Gymraeg yn yr achos hwn.
- 5.5 Ni chanfuwyd tystiolaeth a oedd yn awgrymu bod achos busnes gwirioneddol i gwtogi ar ddefnydd P o'r Gymraeg.
- 5.6 Os mai bwriad D wrth gwtogi ar ddefnydd P o'r Gymraeg ag eraill oedd i sicrhau bod holl gyfathrebiadau a wneir yn y ddeintyddfa yn gallu cael eu deall gan y rhai hynny nad oeddynt yn gallu siarad Cymraeg, yna, byddai D wedi gallu edrych ar ffyrdd eraill o gyflawni'r un diben, heb wahardd defnydd P o'r Gymraeg.
- 5.7 Mae Cymru yn wlad ddwyieithog, sy'n golygu y dylai cyflogwyr a staff barchu a chydabod y ffaith y gall rhai staff o fewn y gweithle ddewis cyfathrebu yn Gymraeg gydag eraill wrth eu gwaith.
- 5.8 Er rwyf yn cydnabod nad yw pob un aelod o staff sy'n rhyngweithio ag aelod o staff sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith yn gallu siarad Cymraeg eu hunain, nid yw hynny yn golygu mai'r unig ffordd o weithredu'r sefydliad yn effeithiol yw i gyfathrebu yn Saesneg yn unig. Er enghraifft, mae'n bosibl y gellid rhoi trefniadau mewn lle yn y sefydliad sy'n golygu bod siaradwyr di-Gymraeg yn derbyn cefnogaeth gyda deall unrhyw gyfathrebiadau Cymraeg a wneir at y diben o gynnal ei fusnes, boed i hynny drwy dechnoleg gyfieithu neu ffyrdd eraill.
- 5.9 Dylai D fod yn effro i'r cysyniad o orfod cynnal ei fusnes yng Nghymru mewn modd sydd yn golygu parchu dewis staff i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyd-aelodau staff. At y diben hwn, ystyriaeth y dylai D ystyried mabwysiadu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithleoedd y mae'n eu cynnal yng Nghymru. Er mwyn sicrhau nad yw'r math yma o ymyrraeth yn digwydd eto, dylid hefyd cydnabod yn swyddogol y rhyddid sydd gan ei aelodau staff yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd (os nad oes cyfiawnhad fel arall i beidio).
- 5.10 O ran cwtogi ar unrhyw ddefnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn y gweithle, ni allaf ystyried

unrhyw sefyllfa lle y byddai hyn yn dderbyniol. Nid yw siarad Cymraeg yng Nghymru gydag eraill sy'n dymuno gwneud hynny, boed ym mhresenoldeb rhywun nad yw'n gallu deall y Gymraeg ai peidio, yn enghraifft o gamwahaniaethu yn erbyn y rhai hynny nad ydynt o reidrwydd yn deall y sgwrs sydd yn mynd ymlaen. Yn naturiol, mae cyfathrebiadau rhwng pobl yn Gymraeg yn rhan cynhenid o fywyd yng Nghymru. Ni ddylai pobl felly deimlo bod defnyddio'r Gymraeg yn achosi rhwystr afresymol na theimlo dan bwysau i droi at y Saesneg.

6. Gweithredu pellach

- 6.1 Mae adran 117(7) Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi roi cyngor i unrhyw berson ynghylch yr ymyrraeth.
- 6.2 Yn achos fy nyfarniad bod D wedi ymyrryd â rhyddid P i gyfathrebu yn Gymraeg gydag unigolyn arall, rwyf yn rhoi'r cyngor canlynol iddo:

Cyngor 1

Rwyf yn cynghori D i ddatgan mewn dogfen bolisi:

- ei fod yn cydnabod bod Rhan 1 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru;
- bod Rhan 6 y Mesur yn sefydlu'r egwyddor bod gan unigolyn ryddid i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg gydag unigolyn arall yng Nghymru;
- ei fod yn ymrwymo fel cwmni i sicrhau na fydd yn ymyrryd â rhyddid unigolion (na'i staff) i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg gyda'i gilydd yng Nghymru; ac
- na fydd yn cydoddef unrhyw ymyrraeth anghyfiawn â rhyddid ei staff i gyfathrebu yn Gymraeg gyda'i gilydd.

Cyngor 2

Rwyf yn cynghori D i godi ymwybyddiaeth rheolwyr a staff yn eu gweithleoedd yng Nghymru o'r egwyddor a sefydlir yn Rhan 6 y Mesur na ddylid ymyrryd â rhyddid unigolyn i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolyn arall yng Nghymru.

Cyngor 3

Rwyf yn cynghori D i fabwysiadu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gyda'r bwriad o hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gan staff yn ei weithleoedd yng Nghymru.